**Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am Gadeirydd newydd sy'n gallu defnyddio eu sgiliau i helpu arwain ein cyfeiriad strategol, arwain ein bwrdd, cefnogi staff, ac i hyrwyddo Masnach Deg yng Nghymru.**

Byddai'r rôl yma yn gweddu unigolyn angerddol, sy'n ymrwymedig i werthoedd Masnach Deg, ac sy'n gallu cynnig eu hamser i gefnogi cyfeiriad strategol Cymru Masnach Deg. Os ydych chi'n poeni am gyfiawnder a chydraddoldeb byd-eang, ac eisiau cefnogi twf y mudiad Masnach Deg, yna gallai hon fod y rôl i chi.

Mae Cymru Masnach Deg yn gweithio i gefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw gweld byd cyfartal, gan ddefnyddio ein gwerthoedd o gefnogi, cydweithio a grymuso.

Mae'r bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol i'r sefydliad, sy'n cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Bennaeth Masnach Deg Cymru gyflogedig sydd, gydag arweiniad y bwrdd, yn paratoi ac yn cyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer y dyfodol.

Mae Cymru Masnach Deg wedi'i sefydlu fel cwmni, wedi'i gyfyngu drwy warant gyda statws nid er elw. Rydym yn gweithio fel rhan o bartneriaeth Hub Cymru Africa (HCA) i gynyddu effeithiolrwydd sefydliadau yn y sector rhyngwladol, ac rydym wedi ein lleoli yng Nghaerdydd. Ar hyn o bryd, mae Hub Cymru Africa yn cael ei ariannu gan raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru.

## Sut i wneud cais

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, yn esbonio pam rydych chi eisiau ymuno â ni fel Cadeirydd Bwrdd Cymru Masnach Deg i sarah@fairtradewales.org.uk.

Dyddiad Cau: Dydd Gwener, 23ain o Fai 2025.

## Manylion

Yn adrodd i:  Bwrdd Cymru Masnach Deg
Cyflog: Mae hon yn swydd ddi-dâl, ond bydd treuliau rhesymol yn cael eu cynnig sy'n gyson ag ymarfer yn y sector gwirfoddol.

### Disgrifiad o’r Swydd Cadeirydd Bwrdd Cymru Masnach Deg

Mae Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Cymru Masnach Deg yn rhannu'r un cyfrifoldebau llywodraethu a’r aelodau eraill o’r bwrdd. Rôl benodol y Cadeirydd ydy i sicrhau bod y bwrdd yn osod diwylliant yn y sefydliad yn effeithiol, cyfeirio a strategaethu’r sefydliad, trwy arwain y bwrdd a chanolbwyntio ar faterion strategol, goruchwylio gweithgareddau'r sefydliad a chynnal safonau uchel o lywodraethu.

### Cyfrifoldebau’r Cadeirydd Bwrdd Cymru Masnach Deg

- Sicrhau bod y bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, bod cyfarfodydd yn cael eu harwain yn gynhwysol, a bod y bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Arwain y bwrdd i lywodraethu ei hun yn dda, gosod cyfeiriad strategol y sefydliad, creu diwylliant cadarnhaol o fewn yr elusen, ac i ddala Pennaeth Cymru Masnach Deg a’r staff yn atebol yn briodol.
- Monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn cyfarfodydd bwrdd, i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac mewn modd amserol.
- Sicrhau bod y bwrdd yn adolygu ei strwythur, effeithiolrwydd, dirprwyaethau a’i bolisïau allweddol yn flynyddol, ac yn gweithredu newidiadau y cytunwyd arnynt yn ôl yr angen.
- Adeiladu perthynas cryf, cadarnhaol a pharchus gyda Phennaeth Cymru Masnach Deg, ac ymgysylltu â staff, buddiolwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Gweithredu fel llysgennad i'r sefydliad, a chynrychioli ei fuddiannau a'i werthoedd i randdeiliaid allanol.
- Gweithio gyda Phennaeth Cymru Masnach Deg i osod eu hamcanion, a chynnal cyfarfodydd un-i-un rheolaidd i gefnogi a monitro cynnydd.

## Manyleb y Person

**Rhinweddau Personol**

- Yn dangos angerdd ac ymrwymiad cryf a gweladwy i'r sefydliad, ei amcanion strategol, a'i achos
- Yn arddangos y gallu i adeiladu perthnasau rhyngbersonol a chysylltu'n gryf, a bod yn gyfforddus mewn rôl llysgennad
- Sgiliau tact a diplomyddiaeth, gyda'r gallu i wrando ac ymgysylltu'n effeithiol
- Galluoedd rhwydweithio cryf y gellir eu defnyddio er budd y sefydliad
- Y gallu i feithrin a hyrwyddo amgylchedd tîm cydweithredol
- Y gallu i ymrwymo amser i gynnal y rôl yn dda.

**Profiad**

- Profiad o weithredu ar lefel arweinyddiaeth strategol uwch o fewn sefydliad
- Profiad o lywodraethu elusennol / sefydliadau nid-er-elw ac o weithio gyda neu fel rhan o Fwrdd Cyfarwyddwyr neu Ymddiriedolwyr
- Profiad o ddarparu cynrychiolaeth allanol, o gyflwyno cyflwyniadau ac o reoli rhanddeiliaid
- Profiad sylweddol o gadeirio cyfarfodydd a digwyddiadau

**Gwybodaeth a sgiliau**

- Gwybodaeth a dealltwriaeth eang o'r sector gwirfoddol a'r materion cyfoes sy'n effeithio arno
- Sgiliau arwain cryf, a'r gallu i ysgogi staff a gwirfoddolwyr ac i ddod â phobl at ei gilydd
- Dealltwriaeth o reolaeth ariannol a dealltwriaeth eang o faterion cyllid cwmni
- Dealltwriaeth dda o faterion llywodraethu elusennol / sefydliadau nid-er-elw